# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

**RHAN 3**

ETHOLIADAU

*Cofrestru etholiadol*

## 26 Darpariaeth bellach ar gyfer eithriadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer neu ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—

(a) yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru gyflenwi neu ddatgelu fel arall unrhyw wybodaeth person ifanc i bersonau a bennir yn y rheoliadau;

(b) yn pennu, mewn perthynas ag unrhyw ddisgrifiad o bersonau a bennir yn y rheoliadau yn unol â pharagraff (a), y dibenion y caniateir defnyddio unrhyw wybodaeth person ifanc a gyflenwyd neu a ddatgelwyd fel arall;

(c) yn gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau sy'n ymwneud â'r graddau (os o gwbl) y caiff personau y cyflenwyd neu y datgelwyd unrhyw wybodaeth person ifanc iddynt (boed hynny yn unol â'r rheoliadau neu fel arall)—

(i) cyflenwi neu ddatgelu fel arall yr wybodaeth i bersonau eraill;

(ii) gwneud defnydd o'r wybodaeth ac eithrio at unrhyw ddibenion a bennir yn y rheoliadau neu'r dibenion y cyflenwyd neu y datgelwyd yr wybodaeth fel arall yn unol â'r rheoliadau;

(d) yn gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau sy'n cyfateb i'r rhai y caniateir eu gosod yn rhinwedd paragraff (c) mewn perthynas ag—

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(i) personau y mae unrhyw wybodaeth person ifanc wedi ei chyflenwi neu ei datgelu fel arall iddynt yn unol â rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff (c) neu'r paragraff hwn, neu

(ii) personau sydd fel arall â mynediad at unrhyw wybodaeth person ifanc;

(e) yn gosod, mewn perthynas â phersonau sy'n ymwneud â pharatoi'r gofrestr lawn o etholwyr llywodraeth leol, waharddiadau sy'n ymwneud â chyflenwi copïau o'r gofrestr lawn a datgelu unrhyw wybodaeth person ifanc a gynhwysir ynddi.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) diwygio, diddymu neu addasu darpariaeth yn adran 25;

(b) gwneud darpariaeth drwy gyfeirio at ddeddfiadau eraill sy'n ymwneud â chyflenwi neu ddatgelu'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, neu gopïau ohoni neu'r cofnodion ynddi;

(c) darparu ar gyfer creu troseddau sydd i'w cosbi drwy ddirwy ar euogfarn ddiannod.

(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.